CYLCHGRAWN GWASANAETH TÂN AC ACHUB CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

MEDI 2023

# CALON TÂN

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service



## TÎM UK-ISAR YM MOROCO

TUDALEN 6



## DIWRNOD AGORED Y PENCADLYS A GORSAF CAERFYRDDIN

TUDALEN 4

YMWELIAD JANE DODDS AS
TUDALEN 3

GOSOD DIFFIBRILWYR
TUDALEN 10-11

RHESTR FER MWY NA DIM OND TANAU
TUDALEN 16

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| YMWELIAD JANE DODDS AS | 3 |
| DIWRNOD AGORED | 4 |
| TÎM UK-ISAR YM MOROCO | 6 |
| CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU | 8 |
| GOSOD DIFFIBRILWYR YN EIN GORSAFOEDD | 10 |
| YMGYRCHOEDD MEDI | 12 |
| STAYWISE CYMRU | 14 |
| DIGWYDDIADAU + AROLWG | 15 |
| RHESTR FER MWY NA DIM OND TANAU | 16 |
| SWYDDI | 18 |


Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth ymateb brys i bron i 12,000 cilomedr sgwâr - bron i ddwy ran o dair o Gymru.

Dyma beth a'n cadwodd yn brysur y mis diwethaf:

**1576** Galwadau i'r Ganolfan Rheoli

**389** Digwyddiadau a fynychwyd

**29** O danau mewn adeiladau

**325** O alwadau ffug

**5** Anifail wedi'u Hachub

**5** O ddigwyddiadau achub dwr

**53** O wrthdrawiadau traffig ffyrdd

**55** O achosion o roi cymorth i asiantaethau eraill





# YMWELIAD JANE DODDS AS A GORSAF DÂN Y DRENEWYDD

**Ddydd Llun, Awst 21, ymwelodd yr AS Jane Dodds, yr Aelod Seneddol dros Ganolbarth a Gorllewin Cymru, â Gorsaf Dân Y Drenewydd i gwrdd â'r criw yn ogystal ag aelodau o'r grŵp lleol 'Knit and Natter' Newtown.**

Yn ddiweddar mae'r grŵp 'Knit and Natter' wedi bod yn brysur yn creu casgliad o dedi bêrs lliwgar, pob un â'i gymeriad unigryw ei hun. Y syniad yw rhoi'r tedis i blant sy'n gysylltiedig â digwyddiadau, a allai fod yn teimlo bod y profiad yn llethol ac yn frawychus.

Bydd y tedis yn ymuno ag aelodau criw Gorsaf Dân Y Drenewydd yn yr injans tân ac yn cael eu dosbarthu i blant mewn digwyddiadau y byddan nhw'n mynd iddyn nhw yn ôl yr angen. Y gobaith yw y bydd y tedis yn helpu i leddfu unrhyw drallod pan fo'n bosibl, gan fod digwyddiadau'n aml yn digwydd yn annisgwyl ac yn brofiadau anghyfarwydd.

Yn ystod yr ymweliad, dywedodd Paula Roberts, aelod o'r grŵp 'Knit and Natter': ***"Mae wedi bod yn fraint ymweld â Gorsaf Dân Y Drenewydd heddiw, cwrdd â rhai o'r diffoddwyr tân a chlywed sut maen nhw'n rheoli eu bywydau gwaith a chartref i fod yn ddiffoddwyr tân wrth gefn. Mae pob un ohonyn nhw yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Drenewydd a'r cyffiniau ac rydyn ni mor ddiolchgar iddyn nhw.***

***Mae'n hyfryd clywed y bydd ein tedis yn mynd at achos mor dda, nid yn unig y byddan nhw'n dod â rhyfaint o gysur a sicrwydd i blant, ond mae eu creu yn rhoi cyfle i ni, fel grŵp, i gwrdd a chymdeithasu, yn ogystal â'n galluogi ni i barhau gyda'n crefftau gwlân."***

O'r chwith i'r dde:Y Pennaeth Gorsaf Andrew Richards, y Rheolwr Gwylfa Michael Wareing, yr AS Jane Dodds, Leah Brzeska, Paula Roberts, y Diffoddwr Tân Susan Richards, y Rheolwr Criw Simon Church a'r Rheolwr Gorsaf Rhys Mullan.



# DIWRNOD AGORED PENCADLYS Y GWASANAETH

**Croesawodd Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gannoedd o bobl i'w Bencadlys a Diwrnod Agored Gorsaf Dân Caerfyrddin ddydd Gwener, 1 Medi.**

Rhoddodd y Diwrnod Agored brofiad y tu ôl i'r llenni i'r ymwelwyr yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin, drwy amrywiaeth o arddangosiadau, megis cŵn chwilio ac achub a thanau sosban sglodion, a gweithgareddau fel peintio wynebau a reidiau ysgol trofwrdd – a sicrhaodd bod pawb wedi cael diwrnod gwych. Roedd pwyslais sylfaenol y diwrnod yn ymwneud â diogelwch cymunedol a chodi arian at ddau achos teilwng – Elusen y Diffoddwyr Tân a 2wish.

Cefnogodd y Rapid Relief Team y diwrnod trwy eu hymdrechion – maen nhw'n rhoi cymorth i'r gwasanaethau brys mewn digwyddiadau ar raddfa fawr ac fe wnaethon nhw ddarparu prydau bwyd drwy gydol y digwyddiad, yn ogystal â'r tîm yn ffreutur staff Pencadlys y Gwasanaeth, Blasus, lle'r oedd lluniaeth ysgafn ar gael.

Cafodd cyfanswm gwych o dros £3,300 ei godi drwy weithgareddau'r Diwrnod Agored, a fydd yn cael ei rannu rhwng y ddwy elusen. Nid yn unig y cododd y digwyddiad arian mawr ei angen at achosion teilwng iawn, roedd hefyd yn gyfle i groesawu cymaint o bobl i Bencadlys y Gwasanaeth ac i ailgysylltu â'r gymuned rydyn ni'n ei gwasanaethu.

**DROS £3,000 WEDI'I CODI DRWY GWEITHGAREDDAU Y DIWRNOD AGORED!**


















TÎM UK - ISAR

# DIFFODDWYR TÂN CYMREIG YM MOROCO WEDI DAEARGRYN TRASIG

**Mae dau dîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UK-ISAR) wedi eu hanfon i Foroco i gefnogi'r ymateb i'r daeargryn trasig a digwyddodd ddydd Gwener, Medi 8fed.**

Cafodd Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UK ISAR) ei anfon i Foroco i gefnogi'r ymateb i'r daeargryn trasig sydd wedi lladd mwy na 2,000 o bobl.

Mae dau dîm chwilio ac ateb o Gymru ymhlith y garfan o 62 ar lawr gwlad ar hyn o bryd sy'n helpu ac yn cefnogi gyda'r ymdrech achub ar ôl cael eu hanfon i Foroco drwy'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO).

Mae pedwar aelod o dîm Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yno – Pennaeth Adran y De, Steve Davies; y Rheolwr Gwylfa, Kevin Morgan, sydd wedi'i leoli yng Nghyfleuster Hyfforddi Earlswood; y Rheolwr Gwylfa, Steven Fuge, o Orsaf Gorseinon, a'r Diffoddydd Tân, Derek Lewis, o Orsaf Gastell Nedd – a dau aelod o Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru (GTADE) hefyd – y Diffoddydd Tân, Alex Bland, o Orsaf Malpas, a'r Diffoddydd Tân, Rob Buckley, o Orsaf Trelái.





Wrth siarad ym Moroco, dywedodd Pennaeth Rhanbarth y De, Steven Davies:

***"Rydyn ni wedi dod ar draws amodau heriol iawn, yn ogystal â gorfod teithio'n bell. Ar ôl cyfarfod â'r tîm lleol, rydyn ni'n teithio dwy neu dair awr i ffwrdd i bentref anghysbell, gan wthio trwy unrhyw rwystrau ar hyd y ffordd i weld a ydyn ni'n gallu hwyluso achub.***

***Byddwn yn parhau â'n gwaith chwilio ac achub nes bydd yr awdurdodau lleol yn barnu bod y cyfnod achub ar ben. Ar hyn o bryd, ein blaenoriaeth yw ceisio dod o hyd i fywyd y gellir ei achub."***

Dywedodd yr Ysgrifennydd Tramor, James Cleverly:

***"Mae Llywodraeth y DU wedi anfon cefnogaeth frys i Foroco, gan gynnwys tîm o 62 o arbenigwyr chwilio ac achub a phedwar ci achub i gynorthwyo gyda'r ymdrech achub.***

***"Rwy'n parhau i fod mewn cysylltiad â'r Gweinidog Tramor Bourita ac yn cydymdeimlo'n ddwys â phobl Moroco wedi'r digwyddiad trasig hwn."***

Mae Tîm Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU yn rhan o Waith Gwydnwch Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân (NFCC) ac mae wrth law yn barhaol i gynnull a chynorthwyo gwledydd sydd wedi cael eu heffeithio gan drychinebau yn ôl yr angen.

Dywedodd Cadeirydd Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, Mark Hardingham:

***"Mae meddyliau gwasanaethau tân ac achub y DU gyda phawb sydd wedi'u heffeithio gan y daeargryn dinistriol ym Moroco.***

***"Mae tîm o ddiffoddyddion tân a meddygon o'r DU sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig wedi cael eu defnyddio i gynorthwyo yn dilyn cais gan lywodraeth Moroco i lywodraeth Prydain. "Byddan nhw'n darparu cymorth technegol arbenigol lle mae ei angen fwyaf i achub bywydau a chefnogi timau'r gwasanaethau brys lleol".***

Dyma'r trydydd tro yn 2023 i GTADC a'r ail i GTACGC anfon Diffoddyddion Tân i ardal drychineb:

- Ym mis Chwefror 2023, roedd tîm o 77 o arbenigwyr Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UKISAR), gan gynnwys tri aelod o GTADC – y Diffoddydd Tân, Luke Davison o Orsaf Malpas; y Rheolwr Criw, Emma Atcherley o Orsaf Ganolog Caerdydd, a'r Diffoddydd Tân, Robert Buckley, o Orsaf Trelái – a dau aelod o GTACGC – Pennaeth Adran y De, Steve Davies a'r Rheolwr Gwylfa, Phil Irving o Orsaf Hwlffordd – yn rhan o'r ymgyrch achub yn Nhwrci.
- Ym mis Mawrth 2023, roedd tîm o 27 o arbenigwyr Chwilio ac Achub Rhyngwladol y DU (UKISAR), gan gynnwys dau aelod o GTADC – Comander yr Orsaf, Darren Cleaves a'r Rheolwr Criw, Tristan Bowen – wedi cael eu hanfon i Falawi drwy'r Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn dilyn Seiclon Freddy.

Mae tîm Chwilio ac Ateb Rhyngwladol y DU yn ymateb yn bennaf i argyfyngau chwilio ac achub trefol dramor ar ran Llywodraeth y DU.

Mae unrhyw dîm Chwilio ac Ateb Rhyngwladol y DU sy'n cael ei ddefnyddio yn hunangynhaliol ar ôl cyrraedd ac yn darparu ei fwyd, dŵr, cysgod, glanweithdra, cyfathrebu a'r holl offer angenrheidiol ei hun er mwyn ymgymryd â gweithrediadau chwilio ac achub am hyd at 14 diwrnod. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes baich ychwanegol yn cael ei roi ar wlad sydd eisoes yn dioddef galwadau ar ei hadnoddau yn dilyn trychineb sydyn.





## CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU





Mae Adran Bowls Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi bod yn brysur dros y misoedd diwethaf. I weld beth maen nhw wedi bod yn ei wneud, ewch draw i'r wefan.



*Flaming Fierce* yn lansio eu cit rownderi newydd! Derbyniodd tîm Rownderi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru eu cit newydd fis Medi yma. Mae tîm y Gwasanaeth yn ddiolchgar iawn yn dilyn derbyn y cit gan eu noddwyr, sef cwmni gwresogi a thrydan *Polaris.*




Rygbi mis Medi hwn

Ddydd Mercher 6 Medi, fe wnaeth adran Rygbi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru herio Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru ym Mharc yr Arfau, Caerdydd, mewn brwydr i ennill cwpan Rygbi Cymru. Er i GTACGC frwydro yn dda, cipiodd GTADC y fuddugoliaeth gyda 38-5.

Da iawn i bawb a gymerodd ran yn y gêm a diolch i bawb a ddaeth i gefnogi'r tîm ar y diwrnod.

Mae Adran Rygbi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn agored i holl weithwyr Canolbarth a Gorllewin Cymru gan gynnwys gwirfoddolwyr, staff llawn amser, staff ar-alwad, staff cymorth ac aelodau sydd wedi ymddeol. Mae croeso i bawb ymuno neu helpu mewn unrhyw ffordd, boed hynny trwy chwarae, hyfforddi, ffisiotherapi neu ddod draw ar gyfer ochr gymdeithasol y gêm.

Gallwch gael y wybodaeth ddiweddaraf am Dîm Rygbi Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru drwy eu Grŵp Facebook, neu drwy gysylltu â Craig Jenkins c.jenkins@mawwfire.gov.uk / Sam Phillips sam.phillips@mawwfire.gov.uk

GTACGC
MAWWFRS
CLWB CHWARAEON A CHYMDEITHASU
SPORTS & SOCIAL CLUB

# Dewch i ymuno HEDDIW
# Become a member TODAY

I gael rhagor o wybodaeth am y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, anfonwch neges e-bost

For further information regarding the Sports & Social Club, please contact

**Steve Philpott - S.philpott@mawwfire.gov.uk**

Mae'r Clwb Chwaraeon a Chymdeithasu yn agored i holl aelodau presennol y Gwasanaeth, a'r aelodau sydd wedi ymddeol.

The Sports and Social Club is open to all current and retired members of the Service.




PARTNERIAETH

# GOSOD DIFFIBRILWYR MYNEDIAD CYHOEDDUS YN EIN GORSAFOEDD TÂN

**Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn gweithio mewn partneriaeth ag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i gynyddu nifer y diffibrilwyr mynediad cyhoeddus sy'n achub bywydau.**

Sefydlwyd Achub Bywyd Cymru yn 2019 gan Lywodraeth Cymru ac mae'n gweithio i sicrhau bod cyfle cyfartal i bawb o oroesi ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty ledled Cymru, i gynyddu nifer y bobl sy'n barod i roi cynnig ar adfywio cardio-pwlmonaidd (CPR), ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ddiffibrilwyr a beth i'w wneud os bydd rhywun yn dioddef ataliad ar y galon.

Gall ataliad sydyn ar y galon ddigwydd i unrhyw un, o unrhyw oed, a phob blwyddyn yng Nghymru mae dros 6,000 o bobl yn dioddef ataliad ar y galon y tu allan i'r ysbyty. Bydd y tebygolrwydd o oroesi yn gostwng 10% gyda phob munud sy'n mynd heibio os na fydd rhywun yn rhoi cynnig ar CPR neu ddefnyddio diffibriliwr. Ar hyn o bryd, dim ond tua 30-40% o bobl sy'n dioddef ataliad ar y galon yn y gymuned fydd yn cael CPR gan rywun sy'n bresennol.

Drwy weithio mewn partneriaeth, mae GTACGC ac Achub Bywyd Cymru wedi nodi 22 o Orsafoedd Tân nad oes ganddynt ddiffibrilwyr mynediad cyhoeddus (PAD) o fewn 500 metr ac maent yn gweithio i gywiro hyn. Yn ystod Diwrnod Agored Pencadlys GTACGC ddydd Gwener, 1 Medi, lansiwyd y rhaglen gyflwyno PAD yn swyddogol, a chafodd yr uned gyntaf ei dadorchuddio yng Ngorsaf Dân Caerfyrddin. Yn ystod y lansiad, lle'r oedd staff gweithredol a chymorth GTACGC yn bresennol, yn ogystal ag ymwelwyr Diwrnod Agored, croesawodd y Prif Swyddog Tân Roger Thomas Gadeirydd Achub Bywyd Cymru, yr Athro Len Nokes, Cydlynydd Cymunedol Achub Bywyd Cymru Marc Gower, a Nick Ozzati o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Yn ystod y dadorchuddio, dywedodd y Prif Swyddog Tân Thomas:

***"Mae'n bleser cael lansio'r cyflwyniad newydd hwn o unedau PAD achub bywyd yn ein Gorsafoedd Tân. Mae Gorsafoedd Tân GTACGC yn cael eu gweld fel mannau cymunedol o bwys ac maent wedi'u lleoli'n strategol ym mhob rhan o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gymorth tân ac amddiffyniad i'r cyhoedd. Bydd cael mynediad 24 awr at unedau PAD yn y Gorsafoedd Tân dethol hyn yn gwella canlyniadau cleifion yn fawr os bydd ataliad ar y galon.***

***Rydw i'n gwybod bod gan rai o aelodau ein criw brofiad uniongyrchol o ddefnyddio PAD a pha mor effeithiol y gallant fod ac, yn ddiweddar, defnyddiodd diffoddwyr tân o Orsaf Dân Pontarddulais ddiffibriliwr ar unigolyn."***

Dywedodd Cadeirydd Achub Bywyd Cymru, yr Athro Len Nokes:

***"Rwy'n falch iawn bod Achub Bywyd Cymru wedi sefydlu partneriaeth newydd gyda Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru i sicrhau y bydd gan gymunedau canolbarth a gorllewin Cymru well mynediad 24/7 at ddiffibrilwyr achub bywyd.***

***Rhaid i mi ddiolch i Nick Ozzati a nododd y gorsafoedd i ddechrau a fyddai'n elwa ar PAD cymunedol rhad ac am ddim gan Lywodraeth Cymru.***

***Mae hwn hefyd yn gyfle gwych i mi gyflwyno Marc Gower, Cydlynydd Cymunedol newydd Achub Bywyd Cymru, i'r rhanbarth. Yn yr un modd â'r bartneriaeth hon, rôl Marc yw gweithio gyda sefydliadau a chymunedau ledled y rhanbarth i gydlynu a rheoli'r gwaith o osod Diffibrilwyr Mynediad Cyhoeddus. Mae hefyd yn gyfrifol am gefnogi'r broses gofrestru PAD ar The Circuit – y rhwydwaith diffibrilwyr cenedlaethol – i sicrhau bod y rhai sy'n derbyn galwadau brys 999 yn gwybod am y diffibrilwyr a'u bod ar gael, i helpu'r rhai sy'n dioddef trawiad ar y galon."***

Bydd y gwaith o gyflwyno unedau PAD yng Ngorsafoedd Tân GTACGC yn parhau dros y misoedd nesaf. Mae diffibrilwyr yn syml ac yn ddiogel i'w defnyddio, ac nid oes angen unrhyw hyfforddiant i ddefnyddio un. Unwaith y bydd wedi'i actifadu, bydd yn dweud wrthych yn union beth i'w wneud a phryd a sut i ddarparu sioc ddiogel. Pan fyddwch chi'n ffonio 999, bydd derbynnydd yr alwad yn dweud wrthych ble mae'r diffibriliwr cofrestredig agosaf a chod i agor y cabinet os oes angen.

Ataliad ar y galon yw pan fydd calon rhywun yn stopio pwmpio gwaed o amgylch ei gorff ac mae'n rhoi'r gorau i anadlu'n normal, tra bod trawiad ar y galon yn digwydd pan fydd un o'r rhydweliau coronaidd yn cael ei blocio, yna ni fydd gan gyhyr y galon ei gyflenwad gwaed hanfodol ac os na chaiff ei drin, bydd yn dechrau marw oherwydd diffyg ocsigen. Gallwch ddysgu rhagor am y gwahaniaethau rhwng trawiad ar y galon ac ataliad ar y galon ar wefan Sefydliad Prydeinig y Galon.

**Mae trawiad ar y galon ac ataliad ar y galon yn sefyllfaoedd brys – ffoniwch 999 ar unwaith bob amser.**

Mae GTACGC yn falch o fod yn datblygu ei bartneriaethau gydag Achub Bywyd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru i wella mynediad i unedau PAD ar draws ei faes Gwasanaeth ac i gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o ddiffibrilwyr a'u pwysigrwydd. Bydd cynyddu nifer y diffibrilwyr mynediad 24 awr yng Ngorsafoedd Tân GTACGC yn gwella darpariaeth diogelwch cymunedol y Gwasanaeth a chanlyniadau cleifion os bydd rhywun yn dioddef ataliad ar y galon.



# DIOGELWCH TÂN BUSNESAU



Ar yr adeg hon o'r flwyddyn bydd llawer o fusnesau'n paratoi ar gyfer cyfnod y Nadolig ac efallai y bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio arnynt hefyd. Mae'n bwysig bod busnesau'n ystyried y risg o dân mewn unrhyw newidiadau a wnânt a sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o ddiogelwch tân yn y gweithle.

Am fwy o wybodaeth am Ddiogelwch Tân i Fusnesau, ewch i: Diogelwch Tân Busnesau - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (tancgc.gov.uk)

# WYTHNOS DIOGELWCH TANAU SIMNAI

4 - 10 Medi 2023




Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymateb i 104 o danau simnai.

Mae tanau simnai yn aml yn cael eu cychwyn oherwydd croniad o huddygl a gallant achosi difrod helaeth ac mewn rhai achosion, perygl i fywyd. Gellir atal y rhan fwyaf o danau simnai a bydd archwilio a glanhau ffliw simnai yn rheolaidd yn helpu i atal tanau ynddynt.

Am fwy o wybodaeth am Diogelwch Tân Simney, ewch i: Simneiau, Tanau Agored a Stofiau Llosgi Pren - Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (tancgc.gov.uk)

# WYTHNOS PEIDIWCH AG YFED A BODDI

18 - 24 Medi 2023

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MAWWFRS) yn annog myfyrwyr i gadw'n ddiogel ac i gadw draw o ddŵr agored y tymor prifysgol newydd hwn.

I gael rhagor o wybodaeth am ymgyrch Peidiwch ag Yfed a Boddi RLSS UK, ewch i: Wythnos Peidiwch ag Yfed a Boddi 18-24 Medi 2023 (tancgc.gov.uk)




# WYTHNOS DIOGELWCH DRYSAU TÂN

25 – 29 Medi 2023



Mae drysau tân yn elfen hanfodol o atal tân a mwg rhag lledaenu, a dylai pawb fod yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn addas i'r diben. Os ydych yn amau bod drws tân diffygiol yn yr adeilad lle'r ydych chi'n byw, yn gweithio neu'n ymweld ag ef, yna peidiwch â cherdded heibio, rhowch wybod i bwy bynnag sy'n rheoli neu'n berchen ar yr adeilad. Gallech achub bywyd y diwrnod hwnnw.

I gael mwy o wybodaeth am Ddiogelwch Drysau Tân, ewch i: Hymgyrch Drysau Tân | Wythnos Diogelwch Drysau Tân

# WYTHNOS DIOGELWCH TÂN I FYFYRWYR

25 Medi – 1 Hydref 2023




Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (GTACGC) yn cefnogi wythnos Diogelwch Tân Myfyrwyr, gan eu hannog i ystyried diogelwch tân yn eu llety newydd.

Am fwy o wybodaeth ar ddiogelwch tân i fyfyrwyr, ewch i'n gwefan

# DIOGELWCH HYDREF

Wrth i'r dail ddechrau newid lliw a chwympo o goed, fe'n hatgoffir y bydd y nosweithiau'n dechrau tynnu i mewn yn gyflymach a bydd y tymheredd yn dechrau gostwng. Rydyn ni am i chi a'ch teulu fwynhau tywydd ffres yr Hydref wrth osgoi rhai o'r risgiau posibl a ddaw i ganlyn y tymor.

Dywedodd Peter Greenslade, Pennaeth Corfforaethol Risg Gymunedol:
***"Rydym am i'n cymuned ystyried ein hawgrymiadau diogelwch ar gyfer y misoedd nesaf. Mae newid yn y tymor yn dynodi newidiadau yn yr amgylchedd a risg uwch o niwed difrifol i bobl ac eiddo. Rydym am sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i helpu i dynnu sylw at y peryglon y gallech eu hwynebu a sut y gallwch leihau'r risgiau hynny trwy gymryd rhai camau syml."***

Am fwy o wybodaeth, cyngor neu arweiniad ewch i'n Hymgyrch Diogelwch yr Hydref ar ein gwefan.



StayWise Cymru
ACHUB BYWYDAU TRWY ADDYSGU
SAVING LIVES THROUGH EDUCATION

## STAYWISE CYMRU


# CYNLLUNIWCH EICH SESIYNAU ALLGYMORTH ADDYSGOL NEU EICH DARPARIAETH ADDYSGOL O BELL GAN DDEFNYDDIO STAYWISECYMRU

**Mae StayWiseCymru yn llwyfan dysgu rhad ac am ddim sydd ag adnoddau wedi'u hanelu at blant a phobl ifanc.**

Mae StayWiseCymru yn cynnal adnoddau rhad ac am ddim y gellir eu lawrlwytho, sydd ag ystod o themâu a gwersi diogelwch yn canolbwyntio ar y Gwasanaethau Brys ac Elusennau Diogelwch. Mae'r adnoddau hyn ar gael at ddefnydd addysgwyr, defnyddwyr golau glas a'r cyhoedd.

Bydd gan StayWiseCymru bopeth y mae arnoch ei angen i gynllunio sesiynau addysgol. Bydd yr holl adnoddau'n gysylltiedig â Cwricwlwm i Gymru, ar gael yn Gymraeg a Saesneg, ac yn lleihau amser athrawon wrth ddatblygu sesiynau.

Gellir cyrchu www.StayWisecymru.co.uk trwy MS Edge neu Google Chrome.






## DIGWYDDIADAU

## GOLCHI CEIR

Port Talbot - 29 Medi

Hwlffordd - 1 Hydref

## AROLWG

# DWEUD EICH DWEUD! HELPWCH I LUNIO DYFODOL EICH GWASANAETH TÂN AC ACHUB!


**A wyddoch chi fod ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru bron yn 12,000 cilomedr sgwâr – sef bron i ddwy ran o dair o Gymru? Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth diogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a darpariaeth ymateb brys ar gyfer ardal canolbarth a gorllewin Cymru.**

Byddem wrth ein bodd yn clywed eich barn ar beth yw eich disgwyliadau o'r Gwasanaeth, yn ogystal â'r hyn sy'n bwysig i chi a'r hyn y credwch y dylem ei flaenoriaethu. Felly, beth am gymryd rhan yn y drafodaeth a rhannu eich barn ar y gwerth a roddwch ar y gwasanaethau a ddarparwn, a'r hyn y dylem ei wneud i'w diogelu?

Gwerthfawrogir eich cymorth a'ch cefnogaeth a bydd cwblhau'r arolwg hwn yn ein helpu i gasglu gwybodaeth am y cymunedau yr ydym yn ymgysylltu â nhw, a fydd yn ein helpu i deilwra ein gwasanaethau yn briodol, gan ein galluogi i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Mae'r ffurflen yn ddienw ac yn gyfrinachol, felly ni fyddwch yn cael eich adnabod gan unrhyw wybodaeth a roddir. Os hoffech gael yr holiadur hwn mewn iaith/ fformat gwahanol, cysylltwch â ni ar 0370 6060699.

Rydym yn cydnabod bod gwrando ar eich barn yn hanfodol os yw'r Gwasanaeth am barhau i ddarparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon a gwell i'ch cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel. Cymerwch ran yn y drafodaeth trwy rannu eich barn ar ddyfodol eich Gwasanaeth Tân ac Achub. I gael gwybod mwy a chymryd rhan yn ein harolwg ar-lein ewch i'n gwefan **www.tancgc.gov.uk/cym**. Diolch am eich cefnogaeth a chyfranogiad.



MWY NA DIM OND TANAU
MORE THAN JUST FIRES

# Rhestr Fer

GWOBRAU 2023 AWARDS

## RYDYM YN FALCH O GYHOEDDI'R RHESTR FER AR GYFER GWOBRAU MWY NA DIM OND TANAU 2023.

**Eleni, derbyniwyd gennym y nifer mwyaf erioed o enwebiadau, ac rydym yn awyddus i estyn ein diolch o galon i bob un ohonoch a neilltuodd yr amser i enwebu eich cyd-weithwyr – bydd eich cyfranogiad yn sicrhau bod gwobrau eleni yn wirioneddol arbennig.**

Cynhelir Mwy Na Dim Ond Tanau 2023 ddydd Gwener, 10 Tachwedd yng Ngwesty'r Metropole, Llandrindod. Mae'n argoeli i fod yn noson llawn cyffro, cydnabyddiaeth, a dathliad o gyfraniadau eithriadol ein timau ymroddedig.

Heb ragor o oedi, dyma restr fer Gwobrau Mwy Na Dim Ond Tanau 2023:

### Gwobr Tîm y Flwyddyn

- Tîm Rheoli Risg Trawma (TRIM)
- Tîm Rheoli Tân ar y Cyd
- Tîm Ystadau

### Gwobr Gwirfoddolwr y Flwyddyn

- Leanne Griffiths
- Aron Curtis
- Joanne Owen

### Gwobr Cymuned a Phartneriaeth

- Tîm Diogelwch Rhag Tân i Fusnesau Rhanbarth y Gogledd
- Seamus Doyle
- Gorsaf Dân Doc Penfro

### Gwobr Hyrwyddwr Elusen

- Rheolwr Gwylfa Carl Williams
- Yr Her Fawr (Le Jog)
- Gorsaf Llandeilo



### Gwobr Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol

- Eddie Williams – Bowls
- Flaming Fierce – Rownderi
- Tîm Rygbi'r Gwasanaeth

### Gwobr Cyflawnwr Ifanc y Flwyddyn

- Macy Bennett
- Arianna Protheroe

### Gwobr Cyfraniad Eithriadol

- Rheolwr Gwylfa Phillip Barry
- Rheolwr Gorsaf Hannah Lodder-Rodda
- Rheolwr Gorsaf Robert Tovey

### Gwobr Gorsaf Orllewinol y Flwyddyn

- Dinbych-y-pysgod
- Caerfyrddin
- Hwlffordd

### Gwobr Gorsaf Ddeheuol y Flwyddyn

- Pontardulais
- Cymer
- Pontardawe

### Gwobr Gorsaf Ogleddol y Flwyddyn

- Aberystwyth
- Machynlleth
- Llanandras

### Gwobr Dewrder y Prif Swyddog Tân

- Y Diffoddwr Tân Liam Davies a'r Diffoddwr Tân Jonathan Carter
- Y Rheolwr Criw Lee Murray
- Y Diffoddwr Tân John Griffiths a'r Diffoddwr Tân Rhys Tall

## Llongyfarchiadau i'r holl enwebeion ar y rhestr fer!

Nid yw eich ymroddiad, eich gwaith caled, a'ch cyfraniadau eithriadol wedi eu hanwybyddu.

Unwaith eto, diolch i bawb a gymerodd ran yn y broses enwebu. Eich cefnogaeth a'ch cydnabyddiaeth yw'r hyn sy'n gwneud Mwy Na Dim Ond Tanau yn bosibl.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r digwyddiad hwn, os gwelwch yn dda, cysylltwch â Linsey Perry ar l.perry@mawwfire.gov.uk



# GWEITHIO GYDA NI!

**Pan fydd pobl yn meddwl am yrfa yn y Gwasanaeth Tân ac Achub, maen nhw'n tueddu meddwl am Diffoddwyr Tân yn ymateb i ddigwyddiadau brys, ond nid Diffoddwyr Tân yn unig sy'n gwneud canolbarth a gorllewin Cymru yn lle mwy diogel.**

Y tu ôl i'r sefyllfa weithredol, mae gan y Gwasanaeth ystod eang o swyddi eraill mewn gwahanol adrannau sydd naill ai wedi'u lleoli mewn swyddfa neu yn ein gweithdai, ac rydym yn cyflogi pobl mewn swyddi proffesiynol, technegol a gweinyddol.

## Buddion

- Cyfraddau cyflog cystadleuol - wedi'u hadolygu'n ddiweddar i sicrhau tegwch ar draws pob rôl; gyda chynyddrannau blynyddol hyd at frig eich band cyflog, wrth i chi feithrin gwybodaeth a magu profiad.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol - Cynllun pensiwn hael, gyda'r Gwasanaeth yn gwneud cyfraniad sylweddol (15.1% ar hyn o bryd) i ariannu eich ymddeoliad, yn ogystal â'r opsiwn i gynyddu eich buddion drwy brynu pensiwn ychwanegol neu fuddsoddi mewn Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (CGY).
- Gwyliau Blynyddol hael – 26 diwrnod ynghyd â gwyliau banc, gan gynyddu hyd at 33 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o gyflogaeth.
- Cynllun Hyblyg – Cyfle i ystwytho eich oriau gwaith er mwyn helpu ymdopi â bywyd y tu allan i'r gwaith.
- Mynediad i gynllun disgownt Cerdyn Golau Glas
- Cynllun Aberthu Cyflog Prydlesu Ceir
- Cynllun benthyca offer TG Let's Connect
- Cyfleusterau ffreutur â chymhorthdal
- Clwb Chwaraeon a Chlwb Cymdeithasol
- Elusen Diffoddwyr Tân
- Parcio am ddim ar y safle
- Beico i'r Gwaith
- Cynllun disgownt i staff
- Iechyd a Lles

**GWELD SWYDDI GWAG CYFREDOL >**











**AR ALWAD**
Recriwtio Diffoddwyr Tân
**ON CALL**
Firefighter Recruitment

# DIFFODDWYR TÂN AR ALWAD - MAE ANGEN CHI ARNOM!



**Ydych chi'n byw o fewn 5-10 munud i'ch Gorsaf Dân leol?**

**Ar hyn o bryd mae gennym ni swyddi gwag ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad - ewch draw i'n gwefan i ddarganfod mwy!**



Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service




# #MwyNaDimOndTanau
# #MoreThanJustFires

www.tancgc.gov.uk